# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDO DROS DIWYLLIANT, CHWARAEON A THWRISTIAETH

**DYDD** Mercher, 23 Mai 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** P. Hughes-Griffiths (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
H Parsons, Rheolwr Cynorthwyol Marchnata a'r Cyfryngau;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Ystafell Cyfarfod Adfywio, Neuadd y Sir, Caerfyrddin 1.30 pm - 2.30 pm**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod(ion) | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| P. Hughes Griffiths | 3 - Ceisiadau i Gronfa Cymorth Digwyddiadau Cyngor Sir Caerfyrddin - Mai 2018 | Mae'n byw gyferbyn â'r man lle y byddai Gŵyl Canol y Dre 2018 yn cael ei chynnal. |

## 2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 13 EBRILL 2018

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 13 Ebrill yn gofnod cywir.**

## 3. CEISIADAU I'R GRONFA CYMORTH DIGWYDDIADAU.

*Sylwer: Roedd y Cynghorydd P. Hughes Griffiths wedi datgan buddiant personol yn nigwyddiad Gŵyl Canol y Dre 2018.*

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn rhoi manylion am gais am gymorth o'r Gronfa Cymorth Digwyddiadau a gafodd ei asesu ar sail ei gyfraniad at amcanion strategol yr Awdurdod o ran Twristiaeth, Cymunedau a'r Economi.

**PENDERFYNWYD:**

**3.1 cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o'r Gronfa Cymorth Digwyddiadau yn amodol ar y telerau a'r amodau a bennwyd ym meini prawf y gronfa:-**

| <u>Digwyddiad</u> | <u>Dyfarniad</u> |
|---|---|
| Parti Gardd Ffug Faer Llansteffan 2018 | £400 |
| Gŵyl Afon a Regata Caerfyrddin 2018 | £500 |
| Carnifal Pen-bre a Phorth Tywyn 2018 | £1,000 |
| Ras Feicio Ieuenctid Genedlaethol Pen-bre 2018 | £1,200 |
| Ras Feicio er cof am Robert Hobbs 2018 | £522 |
| Agor y Gylchffordd Gaeedig Genedlaethol | £390 |
| Gŵyl Feicio Taith Prydain 2018 | £390 |
| Gŵyl Hwyl Cwmaman 2018 | £600 |
| Sioe Clwb Hen Beiriannau Dyffryn Tywi 2018 | £900 |

| | |
|---|---|
| Dathlu 150 o flynyddoedd ers i reilffordd Calon Cymru gael ei hagor, Llanymddyfri | £500* |
| Gŵyl Hanes Cymru i Blant 2018 | £600 |
| Laugharneival 2018 | £1,600 |
| Gŵyl Canol y Dre 2018 | gohiriwyd |
| Sioe Laeth Cymru 2018 | £2,000 |

[*Uchafswm tuag at farchnata a hyrwyddo ac yn amodol ar gyflwyno'r costau hynny]

**3.2 gwrthod y cais gan Gritfest 2018 am gymorth o'r Gronfa Cymorth Digwyddiadau am y rheswm mai ychydig iawn o fudd y byddai'n ei roi i sector twristiaeth yr Awdurdod ac mai cynnig masnachol yn unig oedd hwn a oedd â llawer o risg;**

**3.3 gohirio ystyried cais Gŵyl Canol y Dre 2018 tan fis Mehefin 2018 er mwyn cynnal trafodaethau â Phrif Weithredwr Menter Iaith Myrddin a'r Cyfarwyddwr Addysg.**

______________________________ __________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**